CORFF LLYWODRAETHOL YSGOL GYNRADD CLYDAU – GWYBODAETH CYFFRDINOL

Cadeirydd y Llywodraethwyr: Mrs Julie Rees-James,
Tresi Aur,
Efailwen,
Clunderwen,
Sir Gaerfyrddin,
SA66 7UZ

Clerc y Llywodraethwyr: Ms Kate Evan-Hughes,
Cyfarwyddwr dros Blant ac Ysgolion,
Neuadd y Sir,
Hwlffordd,
Sir Benfro,
SA66 1TP

Cadeirydd 2018/19 Mrs J Rees-James **Is-Gadierydd** Mrs S Bailey-Williams

Mae rhestr lawn y Llywodraethwyr fel y ganlyn:

ENW	STATWS	DYDDIAD CYCHWYN	DYDDIAD GORFFEN
Mr S Jones	Pennaeth	**21/09/2012**	
Mrs J Rees-James	Llywodraethwr Cymunedol	**21/05/2018**	**20/05/2022**
Mrs G Savins	Llywodraethwr Awdurdod Lleol	**14/02/2016**	**13/02/2020**
Mrs E Davies	Llywodraethwr Cymunedol	**17/10/2016**	**16/10/2020**
Cyng Rod Bowen	Llywodraethwr Awdurdod Lleol	**13/07/2016**	**12/07/2020**
Mrs V Thomas	Llywodraethwr Cyngor Cymuned	**17/01/2019**	**16/01/2023**
Mrs G Davies	Rhiant	**24/01/2017**	**23/01/2021**
Mrs C James	Rhiant	**13/10/2015**	**12/10/2019**
Mrs S Bailey-Williams	Rhiant	**26/03/2018**	**25/03/2022**
Mrs C Davies	Cynrychiolydd Staff Dysgu	**05/06/2018**	**04/06/2022**
Mrs J King	Cynrychiolydd Staff Eraill	**26/01/2016**	**25/01/2020**

Etholiad Rhiant Lywodraethwyr

Gwneir trefniadau ar gyfer ethol rhiant-lywodraethwyr un tymor cyn i gyfnod swydd rhiant lywodraethwyr ddod i ben, neu pan fydd rhiant-lywodraethwyr yn ymddiswyddo. Anfonir gwybodaeth ynglŷn â'r etholiad drwy law'r disgyblion.

Ysgol Clydau Tegryn Llanfyrnach Sir Benfro SA35 0BE
Ffon/Tel: 01239 698236
E-bost/Email: head.clydau@pembrokeshire.gov.uk
Pennaeth/Head: Mr Sion Jones

YSGOL CLYDAU
ADRODDIAD BLYNYDDOL I RIENI 2018/2019

Pleser i ni yw cyflwyno adroddiad blynyddol yr ysgol i chi am y flwyddyn 2018-2019.

Nifer ar y gofrestr Tymor yr Hâf 2019: 60

Presenoldeb 2018/19 (hyd at 14/6/19): 94.8%

Absenoldebau heb ganiatad: 0.1%

STAFF

Mr Sion Jones	Pennaeth/ Athro Cyfnod Allweddol 2
Mrs Catrin Davies	Athrawes Cyfnod Sylfaen
Mrs Rhiannon Davies	Athrawes (Rhan amser)
Mrs Helen Standing	Athrawes Peripatetig Cerddoriaeth (3 awr)
Mrs Kim Lewis	Cynorthwywraig Cyfnod Allweddol 2
Mrs Jan King	Cynorthwywraig Cyfnod Allweddol 2 (rhan amser)
Mrs Joy Davies	Cynorthwywraig Cyfnod Allweddol 2 (rhan amser)
Mrs Felicity Lamb	Cynorthwywraig Cyfnod Alweddol 2
Mrs Cheryl Whittal-Williams	Cynorthwywraig Cyfnod Sylfaen (rhan amser)/ Goruchwylwraig amser cinio/ Clwb Brecwast
Mrs Jamean Tilley	Cynorthwywraig Cyfnod Sylfaen (rhan amser)
Mrs Suzette James	Gofalwraig/Gweinyddes Clwb Brecwast a Chinio
Ms Meagan Circus	Glanhawriag / Goruchwylwraig amser cinio/ Clwb Brecwast
Mrs Jill Horwood	Swyddog Gweinyddol
Mrs Jan Halle Stewart	Clerc arian cinio

AGWEDDAU GWELLA'R YSGOL

Yn ystod y flwyddyn, mae'r ysgol wedi bod yn gweithio ar argymhellion y cynllyn datblygu ysgol. Mae hyn yn cymryd ffurf arsylwi gwersi, craffu ar waith disgyblion, adolygu polisìau / cynlluniau gwaith ac edrych ar safon adnoddau sydd ar gael yn yr ysgol.

Fel rhan o'r cynllun Hybu Iechyd a'r Ysgol Gynaliadwy, rydym yn gweithio ar wella amgylchedd yr ysgol. Mae'r Cyngor Ysgol yn rhan annatod o'r cynlluniau yma a phenderfynwyd edrych ar yr agweddau yma eleni:

YSGOL GYNALIADWY:

Bu'r ysgol yn gweithio ar y themau canlynol:

- Gwastraff ac Ailgylchu
- Dinasyddiaeth Byd-eang
- Dinasyddiaeth Cymunedol

Ym mis Ebrill 2019 derbyniodd yr ysgol mesen y Wobr Aur.

HYBU IECHYD:
Parhau i weithio ar themau megis:

- Rheolaeth
- Amgylchedd
- Perthnasedd a Theimladau

Mae'r ysgol yn parhau i gynnal gweithgareddau er mwyn cwrdd a Chymhwyster Cenedlaethol y Cynllun.

BWYTA AC YFED YN IACH MEWN YSGOLION

Mae Ysgol Gynradd Clydau yn gweithio'n galed i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Rydym wedi cwblhau Cam 5 o Gynllun Brosiect Ysgolion Iach gan hyrwyddo bywyd iachus. Annogir y disgyblion i ddod a boteli dŵr i'r ysgol lle mae dŵr ar gael trwy'r dydd. Mae pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn derbyn llaeth am ddim trwy gynllun Llywodraeth Cymru. Mae ciniawau ysgol yn cael ei goginio ar safle Ysgol y Frenni, Crymych gan Wasanaeth Arlwyo Sir Benfro gan ddilyn canllawiau cenedlaethol. Mae'r prydau bwyd yn isel mewn siwgr a halen. Mae disgyblion sydd yn dod â phecynnau bwyd i'r ysgol yn cael eu hannog i fwyta'n iach a dosberthir gwybodaeth perthnasol. Rydym yn rhedeg siop tost yn yr ysgol lle mae'r disgyblion yn gallu prynu tost yn ddyddiol. Gall disgyblion ddod â darnau ffrwyth o'r cartref ond ni chaniateir creision na losin amser egwyl. Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn parhau i gymryd rhan yn rhaglen Cynllun Gwên Llywodraeth Cymru gyda'r nod o hybu disgyblion i frwsio eu dannedd yn ddyddiol. Ar ddiwedd Tachwedd, yn dilyn asesiad, derbyniodd y disgyblion Gwobr Efydd y Cynllun Gwên.

Mae'r gwersi yn cefnogi bywyd iach e.e. coginio, gardd i dyfu llysiau, bwyta'n iach mewn gwersi ABCH. Cysylltir hyn gyda gwersi Addysg Gorfforol.

Toiledau

Mae yna doiledau digonol yn yr ysgol ar gyfer pob dosbarth. Mae safon y glanhau yn arbennig.

CYNLLUN GWEITHREDU YSGOL

Mae hwn yn gynllun gweithredol sy'n dangos datblygiadau yn y meysydd allweddol ac mae ysgolion yn ei ddefnyddio ar gyfer cynllunio ynghyd â Rheoli Perfformiad a Hunan Werthuso Ysgol.
Dyma'r agweddau a fonitrwyd ac a ddatblygwyd dros y flwyddyn diwethaf:

Targedau	Gwerthusiad
Sicrhau mwy o gyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau mewn perthynas a'u dysgu ac i weithio'n fwy annibynnol yng nghyfnod Allweddol 2	Dau aelod o staff wedi mynychu HMS ar arfer dda ar sut i ddatblygu dysgwyr annibynnol. Disgyblion wedi cwblhau grid GED i adnabod meysydd o ddiddordeb yn ystod topig Plastig/Ailgylchu. Cyfarfodydd gydag Arweinydd Dysgu y Clwstwr er mwyn rhannu arfer dda ynglyn a sut all disgyblion wneud dewisiadau mewn perthynas a'u dysgu.
Codi safonau Cymraeg ymhellach gan ganolbwyntio ar uwch sgiliau darllen y disgyblion ar draws yr ysgol	Dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau i ddatblygu eu sgiliau darllen wrth gwblhau gwaith trawscwricwlaidd. Disgyblion wedi cymryd rhan yn Ail Rownd y Cwis Llyfrau Datblygu sgiliau darllen grŵp. Wedi dechrau'r broses o gasglu tystiolaeth ar gyfer Cymedroli.
Datblygu sgiliau rhesymu disgyblion ar draws yr ysgol gan sicrhau dealltwriaeth ac ystod	Wedi mynychu hyfforddiant pellach ar ddatblygu sgiliau Rhesymu. Cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio sgiliau datrys problemau yn ystod gwaith trawscwricwlaidd.

lawn o strategaethau datrys problemau	
Parhau i ddatblygu'r prosesau adborth er mwyn gwella gallu'r disgyblion o hunan asesu ac asesu cyfoed	Cyfarfod gydag Arweinydd Dysgu Clwstwr i edrych ar arfer dda o fewn a thu allan i'r sir. Angen gwaith pellach i ddatblygu sgiliau hunan aesu ac asesu cyfoed disgyblion.
Cynllunio ar gyfer profiadau cyfoethogi i ddysgwyr gan ganolbwyntio ar ddatblygu y chwe maes addysgu.	Dau aelod o staff wedi mynychu HMS Clwstwr ym mis Ionawr. Athrawon a CDD yn ymwybodol o'r Cwricwlwm newydd. Edrych ar ddulliau cynllunio posib – Building Blocks. Wedi mynychu HMS ERW ar weithgareddau posib i ddatblygu y chwe maes dysgu.

STRATEGAETH DWYIEITHRWYDD

Mae Ysgol Clydau yn cael ei chategoreiddio fel ysgol Gymraeg, lle mae pob agwedd o'r cwricwlwm yn y Cyfnod Sylfaen yn cael eu dysgu yn Gymraeg ac o leiaf 70% o'r dysgu yn digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg yn CA2. Dysgir Mathemateg a Gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

PROSBECTWS

Adnewyddwyd y Prosbectws eleni eto a gellir gael copi os y dymunwch.

POLISIAU

Adnewyddwyd neu adolygwyd y polisiau i gyd yn ystod y flwyddyn, ac maent ar gael os hoffech gopi.

ANGHENION ADDYSGOL YCHWANEGOL

Mr Sion Jones (ALNCO) sydd yn gyfrifol am Anghenion Dysgu Ychwanegol y disgyblion ac yn sicrhau fod eu hanghenion yn cwrdd â'r disgwyliadau am ddisgyblion gyda datganiad neu heb ddatganiad. Cynhelir cyfarfodydd â'r athrawon dosbarth a'r rhieni i adolygu sefyllfa'r disgyblion ar y gofrestr anghenion addysgol ychwanegol, gan drafod y datblygiadau a'r gweithgareddau a roddir mewn lle i'r disgyblion.

TREFNIADAU DERBYN PLANT AG ANABLEDD

Bydd y Pennaeth yn asesu disgwyliadau anghenion arbennig mewn cysylltiad â derbyn disgyblion ag anabledd ac yn trafod gyda'r Llywodraethwyr cyn derbyn plentyn ac yn sicrhau fod pethau mewn lle. Ysgrifennwyd a chyhoeddwyd Cynllun Cydraddoldeb Anabledd, ac rydym yn ei weithredu.

TARGEDAU

Yn ystod tymor yr Hydref 2018, trafododd y Pennaeth â'r staff dargedau lefelau i bob plentyn yn y Cyfnod Sylfaen a CA2 am y cyfnod 2018- 2019. Cytunwyd ar y targedau gan y staff, AALI a'u gyflwyno i'r Llywodraethwyr er mwyn iddynt gytuno arnynt.

Gwnaed Asesiadau Athro yn ystod tymor yr Hâf. Gwneir Asesiadau Proffil Asesu Datbygliad Plentyn gyda phlant pedair mlwydd oed ar ddechrau pob tymor.

Gweinyddwyd Profion Statudol Llywodraeth Cymru yn ystod mis Mai yn Gymraeg, Saesneg a Rhifedd. Gweinyddiwyd Asesiadau Safonol ar gyfer data yr ysgol yn ystod Tymor yr Hâf.

LLWYDDIANNAU CHWARAEON

Mae'n fwriad gennym i sicrhau fod pob plentyn yn cael mynediad i fwynhau chwaraeon, beth bynnag fo'i allu. Trwy chwaraeon dysgant hunan ddisgyblaeth, goddefgarwch a chydweithrediad.

Mae'r disgyblion wedi cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau chwaraeon dros y flwyddyn, dyma restr o rai ohonynt:

- Bu'r disgyblion yn chwarae yng nghystadleuaeth Pêl-droed i Adrannau.
- Bu'r disgyblion yn cymryd rhan mewn twrnament criced.
- Cymerodd y disgyblion rhan yn nhwrnament pêl droed 7 bob ochr yr urdd ac hefyd yn y gala nofio.
- Cynhaliodd yr ysgol ei mabolgampau ysgol blynyddol ar gae yr ysgol.

ADEILAD

- Yn ystod Gwyliau'r Pasg gosodwyd gatiau diogelwch newydd wrth ffrynt a chefn yr ysgol. Er gwaethaf y gwaith a gwblhawyd yn ystod Gwyliau Hâf 2018 mae angen gwaith pellach er mwyn gwella damprwydd Ystafell Gyfrifiaduron. Gosodwyd ffenestri newydd yn nosbarthiadau Cyfnod Allweddol 2.

CYMORTH GAN RHIENI A'R CARH

Rydym yn ffodus iawn fod gan yr ysgol CARh weithgar iawn. Codwyd symiau da o arian dros y flwyddyn. Gwerthfawrogir eu cyfraniad yn fawr iawn gan gynorthwyo'r ysgol i gyfoethogi'r cwricwlwm a phrofiadau'r plant, drwy dalu am adnoddau a thrafnidiaeth i ymweliadau i nifer o fannau. Braf fyddai gweld wynebau newydd yn mynychu'r cyfarfodydd gan mai cymdeithas i holl rieni a gwarcheidwyr yr ysgol yw'r CARh. Felly cofiwch fynychu'r cyfarfod nesaf ym mis Medi. Hoffem gymryd y cyfle yma i ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a'u hymrwymiad i'r ysgol.

Dyma rai o'r digwyddiadau sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn:

- Cynhaliwyd y Cwrdd Diolchgarwch yng Nghapel Star. Rhoddwyd yr arian a godwyd i Apel Amelia Matters– codwyd £225.
- Bu'r Cyngerdd Nadolig yn neuadd yr Ysgol. Daeth nifer o drigolion y gymuned i gefnogi a gweld y perfformiad.
- Ym mis Rhagfyr, bu plant a rhieni o amgylch y gymuned yn canu carolau i godi arian i CAR Ysgol Clydau.
- Bu nifer yn perfformio yn y gyngerdd Offerynnol i rieni a gwarcheidwyr a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr a Gorffennaf.

CYFRANOGIAD DISGYBLION

Mae cyfranogiad disgyblion yn rhan annatod o brofiad y disgyblion. Drwy roi llais i'r disgyblion maent yn gallu cymryd cyfrifoldeb am ddigwyddiadau drwy Gyngor yr Ysgol, Clwb Eco a'r Cyngor Cymreictod. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd i drefnu digwyddiadau i godi arian, sy'n codi eu ymwybyddiaeth o eraill sydd mewn angen, ac i gymryd rhan mewn digwyddiadau yn y sir.

- Codwyd £134.15 i Blant Mewn Angen a £85 i Comic Relief.
- Mynychodd tri plentyn diwrnod Hybu Cymreictod ar ddydd Mercher Hydref 3ydd gyda'r pwrpas o greu adnoddau i'w ddefnyddio yn yr ysgol.
- Trefnwyd gweithgareddau i ddathlu Diwrnod Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod Masnach Deg a Diwrnod Comic Relief.

YMWELIADAU YSGOL AC ALLANOL

Mae llawer o unigolion yn ymweld â'r ysgol drwy gydol y flwyddyn er mwyn cyfoethogi ac ychwanegu at brofiad y disgyblion ac i roi golwg ehangach iddyn nhw ar lawer o agweddau y tu allan i'r ysgol. Mae gan y disgyblion gyfleoedd i ymweld â nifer o ddigwyddiadau a lleoliadau drwy gydol y flwyddyn.

- Mae PC Helen Llywelyn Swyddog Cyswllt Ysgolion yn ymweld â'r ysgol yn dymhorol. Yn ogystal, ym mis Mawrth, daeth cynrychiolydd o'r Frigad Dan i'r Ysgol.
- Ym mis Hydref, bu PCSO Alex Mason, yn trafod pwysigrwydd cymryd gofal dros Calan Gaeaf a Thân Gwyllt.

- Sesiynau E-ddiogelwch – y disgyblion yn cael eu hannog i fod yn ymwybodol o ddiogelwch y rhyngrwyd.
- Ar ddechrauTachwedd ymwelodd Natasha o Hedgley Hedgehogs â'r ysgol er mwyn esbonio eu gwaith o achub a gwella draenogod sâl.
- Ym mis Tachwedd, mwynhaodd y disgyblion hŷn, ddrama am y Blits a berfformiwyd gan Anwen Carlilse o gwmni Mewn Cymeriad. Cafwyd y cyfle i ddysgu am deimladau'r bobol yn ystod y Blits.
- Ym mis Ionawr, enillodd disgyblion y Cyfnod Sylfaen cystadleuaeth yng nghylchgrawn WCW. Ei gwobr oedd llyfr 'Cled y Cwmwl Unig'.
- Ar gyfer dathlu diwrnod y llyfr gwahoddwyd y disgyblion i wisgo fel cymeriad allan o lyfr. Cafwyd nifer o gymeriadau gwahanol a diolch i bawb a wnaeth helpu gyda'r gwisgoedd. Yn ystod y prynhawn bu disgyblion Blwyddyn Derbyn i 5 yn ymweld â Llyfrgell Crymych.
- Ym mis Chwefror cynrychiolwyd yr ysgol yng Ngwis Dim Clem, a drefnwyd gan Menter Iaith Sir Benfro.

CYDWEITHIO A'R GYMUNED

Mae croeso i aelodau'r gymuned fynychu cyngherddau a gweithgareddau eraill yn yr ysgol, ac rydym yn gwerthfawrogi'r holl gefnogaeth mae'r ysgol yn ei dderbyn.

- Mynychodd nifer o ddisgyblion oedfa garolau'r Urdd yng Nghapel Blaenffos.
- Cynhaliwyd Gwasanaeth Sul yr Urdd yng Nghapel Blaenffos, eleni ar ddydd Sul Tachwedd 18fed. Bu 7 disgybl yn llefaru a chanu yn ystod y Gwasanaeth.
- Ym mis Tachwedd bu disgyblion Cyfnod Allweddol 2 ar ymweliad ag Eglwys Clydau. Buont yn dysgu am nodweddion gwahanol yr Eglwys ac am waith y Ficer, Jonathan Copse.
- Mae cyswllt cryf rhwng y Cylch Meithrin ym Mwlchygroes a Hermon gyda'r Ysgol yn parhau drwy drefnu i ddisgyblion i dreulio amser gyda ni yn yr Ysgol cyn dechrau'n llawn amser.

LLWYDDIANT GYDA'R URDD

Fel ysgol, rydym yn ymdrechu i gefnogi mudiadau lleol fel yr Urdd gan y credwn ei fod yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion i gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau, ac i ddod i adnabod disgyblion o ysgolion lleol.

- Cystadlwyd yng nghwis yr Adrannau ym Mhentre Ifan gan dderbyn y drydedd wobr allan o ddeuddeg tîm.
- Bu'r disgyblion yn cystadlu yn yr Eisteddfod Gylch yn Theatr y Gromlech, Crymych.
- Bu naw disgybl yn cystadlu yn Chwaraeon Dan Do yr Urdd ar ddydd Sadwrn, Ionawr 19eg gan dderbyn chwech gwobr.
- Mynychwyd Jambori yr Urdd.

GWERTHFAWROGIAD

Ar ran y Corff Llywodraethol, hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb am eu cefnogaeth barhaus i'r ysgol, y staff a'r disgyblion. Mae nifer o rieni wedi gweithio'n galed i godi arian i'r ysgol yn ystod y flwyddyn ac mae'r cyfraniadau hyn yn amhrisiadwy i helpu i gyfoethogi'r cwricwlwm a phrofiadau'r plant. Hoffwn hefyd ddiolch i bawb sydd wedi helpu'r ysgol mewn unrhyw ffordd yn ystod y flwyddyn.

Credaf ein bod yn darparu amgylchedd diogel a hapus i'n plant, gan rhoi'r dechrau gorau posibl i'w haddysg ac i sicrhau eu bod yn cael pob cyfle sydd ar gael iddynt. Hyderaf y gallaf ddibynu arnoch i barhau gyda'r cefnogaeth a'ch hymrwymiad i'r Ysgol yn y dyfodol.

Hoffwn ddiolch i holl staff yr ysgol am eu gwaith yn ystod y flwyddyn – mae eu hymroddiad yn ddiffael.

Yn olaf, hoffwn ddymuno'n dda i ddisgyblion blwyddyn 6 wrth iddynt adael Ysgol Clydau a symud ymlaen i'r Ysgol Uwchradd. Diolch i bob un ohonoch am bopeth a Phob Lwc!

YSGOL CLYDAU Financial Year 2018-2019

School Resources Available	
Initial Funding:	243,019
Additional In-Year Funding:	
Statementing and / or Additional ALN Support	-3,340
Other Funding	0
Education Improvement Grant (EIG) Delegated (excluding Foundation Phase)	0
Total Funding for the Financial Year:	239,679
School Reserve Balance b/fwd from Last Year:	
(NB. Not available until June after final balance agreed)	31,857
Total Funds Available:	271,536
Less: Budget Expenditure - EP39/ALL	251,732
Estimated Year End Resources available, ***if spend is as School Working Budget*****:**	19,804

This report uses data for 2017 for LA and Wales comparative information

Ysgol Clydau
Pembrokeshire

LA/School no: 668/2385

School comparative information: Foundation Phase Outcomes 2018

Percentage of boys, girls, and pupils achieving at least the expected outcome (Outcome 5+):

	Boys			Girls			Pupils		
	School 2018	LA 2017	Wales 2017	School 2018	LA 2017	Wales 2017	School 2018	LA 2017	Wales 2017
PSD	100	91	92	100	96	97	100	93	95
LCW	100	84	88	75	88	94	86	86	91
LCE	0	85	85	0	92	92	0	88	88
MDT	100	88	88	75	91	92	86	89	90
FPI	100	84	84	75	90	91	86	87	87



School Performance over time (2014 - 2018)



Notes:

1. - = No historical data available
2. Areas of learning: PSD = Personal and social development, well-being and cultural diversity; LCW = Language, literacy and communication skills (in Welsh); LCE = Language, literacy and communication skills (in English); MDT = Mathematical development; FPI = Foundation Phase Indicator. To achieve the FPI, a pupil must achieve at least the expected outcome (Outcome 5+) in both PSD and MDT and either LCW or LCE.
3. If there were no pupils eligible for assessment in a subject for a particular year the graph will discontinue and show a gap for that year.

CYNGOR SIR PENFRO
DYDDIADAU GWYLIAU YSGOL 2019-20

2019 - Medi

Llun	Maw	Mer	Iau	Gwe	Sad	Sul
						1
2	3	4	5	6	7	8
9	10	11	12	13	14	15
16	17	18	19	20	21	22
23	24	25	26	27	28	29
30						

2019 - Hydref

Llun	Maw	Mer	Iau	Gwe	Sad	Sul
	1	2	3	4	5	6
7	8	9	10	11	12	13
14	15	16	17	18	19	20
21	22	23	24	25	26	27
28	29	30	31			

2019 - Tachwedd

Llun	Maw	Mer	Iau	Gwe	Sad	Sul
				1	2	3
4	5	6	7	8	9	10
11	12	13	14	15	16	17
18	19	20	21	22	23	24
25	26	27	28	29	30	

2019 - Rhagfyr

Llun	Maw	Mer	Iau	Gwe	Sad	Sul
						1
2	3	4	5	6	7	8
9	10	11	12	13	14	15
16	17	18	19	20	21	22
23	24	25	26	27	28	29
30	31					

2020 - Ionawr

Llun	Maw	Mer	Iau	Gwe	Sad	Sul
		1	2	3	4	5
6	7	8	9	10	11	12
13	14	15	16	17	18	19
20	21	22	23	24	25	26
27	28	29	30	31		

2020 - Chwefror

Llun	Maw	Mer	Iau	Gwe	Sad	Sul
					1	2
3	4	5	6	7	8	9
10	11	12	13	14	15	16
17	18	19	20	21	22	23
24	25	26	27	28	29	

2020 - Mawrth

Llun	Maw	Mer	Iau	Gwe	Sad	Sul
						1
2	3	4	5	6	7	8
9	10	11	12	13	14	15
16	17	18	19	20	21	22
23	24	25	26	27	28	29
30	31					

2020 - Ebrill

Llun	Maw	Mer	Iau	Gwe	Sad	Sul
		1	2	3	4	5
6	7	8	9	10	11	12
13	14	15	16	17	18	19
20	21	22	23	24	25	26
27	28	29	30			

2020 - Mai

Llun	Maw	Mer	Iau	Gwe	Sad	Sul
				1	2	3
4	5	6	7	8	9	10
11	12	13	14	15	16	17
18	19	20	21	22	23	24
25	26	27	28	29	30	31

2020 - Mehefin

Llun	Maw	Mer	Iau	Gwe	Sad	Sul
1	2	3	4	5	6	7
8	9	10	11	12	13	14
15	16	17	18	19	20	21
22	23	24	25	26	27	28
29	30					

2020 - Gorffennaf

Llun	Maw	Mer	Iau	Gwe	Sad	Sul
		1	2	3	4	5
6	7	8	9	10	11	12
13	14	15	16	17	18	19
20	21	22	23	24	25	26
27	28	29	30	31		

2020 - Awst

Llun	Maw	Mer	Iau	Gwe	Sad	Sul
					1	2
3	4	5	6	7	8	9
10	11	12	13	14	15	16
17	18	19	20	21	22	23
24	25	26	27	28	29	30
31						

DIWRNODAU ATHRAWON DAN GYFARWYDDYD **TR**

GWYLIAU YSGOL

Gwyliau Banc

Gwener y Groglith	10 Ebrill 20	Gwyl Banc Mai	~~04 Mai 20~~ 08 MAI 20
Llun y Pasg	13 Ebrill 20	Gwyl Banc y Gwanwyn	25 Mai 20

Tymor	Dechrau	Diwedd	Gwyliau hanner-tymor		Dechrau	Diwedd	Dyddiau Ysgol
			Dechrau	Diwedd			
Hydref 2019	Dydd Llun 2 Medi 2019	Dydd Gwener 25 Hydref 2019	Dydd Llun 28 Hydref 2019	Dydd Gwener 1 Tachwedd 2019	Dydd Llun 4 Tachwedd 2019	Dydd Gwener 20 Rhagfyr 2019	74
Gwanwyn 2020	Dydd Llun 6 Ionawr 2020	Dydd Gwener 14 Chwefror 2020	Dydd Llun 17 Chwefror 2020	Dydd Gwener 21 Chwefror 2020	Dydd Llun 24 Chwefror 2020	Dydd Gwener 3 Ebrill 2020	60
Haf 2020	Dydd Llun 20 Ebrill 2020	Dydd Gwener 22 Mai 2020	Dydd Llun 25 Mai 2020	Dydd Gwener 29 Mai 2020	Dydd Llun 1 Mehefin 2020	Dydd Llun 20 Gorffennaf 2020	59
Diwrnodau Athrawon dan gyfarwyddyd	Dydd Llun 2 Medi 2019 a Dydd Llun 20 Gorffennaf 2020						2
						CYFANSWM	195

Noder, os gwelwch yn dda, mae'n bosib y bydd rhaid newid y calendr hwn yn dilyn unrhyw newidiadau a all godi yn sgil penderfyniadau polisi'r llywodraeth. Nid yw Cyngor Sir Penfro yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw golledion a gafwyd mewn perthynas â'r newid yn y trefniadau gwyliau.

Atodiad B - Ewch hawl i ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu'r ysgol

Roedd yn arfer bod yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni. Cafodd y gofyniad hwnnw ei ddileu gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf). Yn lle hynny, cyflwynwyd trefniadau newydd fel y bo modd i rieni ofyn am hyd at 3 chyfarfod gyda chorff llywodraethu mewn unrhyw flwyddyn ysgol, i drafod materion sy'n peri pryder iddyn nhw.

Os yw rhieni am arfer eu hawliau dan y Ddeddf i gynnal cyfarfod, bydd angen bodloni 4 gofyniad:

1. Bydd angen i rieni gyflwyno deiseb o blaid cynnal cyfarfod.
Bydd angen i rieni o leiaf[3] 10% o ddisgyblion cofrestredig yr ysgol cofrestredig lofnodi'r ddeiseb. Yn achos deiseb ar bapur, rhaid rhoi llofnod ysgrifenedig, yn ogystal ag enw a dosbarth pob plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol. Os yw'r ddeiseb yn un electronig, bydd angen i riant 'lofnodi' drwy deipio ei enw a bydd rhaid rhoi enw a dosbarth pob plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol a chyfeiriad e-bost pob rhiant sy'n 'llofnodi'r' ddeiseb electronig.

[4] Roedd 56 o blant wedi'u cofrestru gyda'r ysgol hon ar ddechrau'r flwyddyn academaidd hon. Gallwch gysylltu â swyddfa'r ysgol i gael gwybod yn union faint sydd ar y gofrestr ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn.

2. Rhaid galw'r cyfarfod i drafod materion sy'n effeithio ar yr ysgol.
Ni ellir galw cyfarfod i drafod materion fel cynnydd disgyblion unigol, neu er mwyn gwneud cwyn yn erbyn aelod o staff yr ysgol neu aelod o'r corff llywodraethu.

Dylai'r ddeiseb gynnwys manylion cryno am y mater(ion) i'w trafod, a'r rhesymau dros alw'r cyfarfod. Dylid dangos yr wybodaeth honno'n glir ar frig y ddeiseb, a dylai'r rhieni lofnodi oddi tani.

3. Ceir cynnal uchafswm o 3 chyfarfod yn ystod y flwyddyn ysgol
Mae'r gyfraith yn caniatáu i rieni arfer eu hawliau i ofyn am hyd at 3 chyfarfod gyda chorff llywodraethu ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol.

4. Rhaid bod o leiaf 25 o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol
Mae'n amod dan y gyfraith fod o leiaf 25 o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol pan fo'r ddeiseb yn dod i law, a hynny fel y bo modd cynnal y cyfarfod.
Ystyr "diwrnod ysgol" yw diwrnod pan fo'r ysgol yn agored i ddisgyblion: nid yw'n cynnwys penwythnosau, gwyliau cyhoeddus, gwyliau ysgol na diwrnodau Hyfforddiant mewn Swydd (HMS).

Dyma'r cyfeiriad ar gyfer cyflwyno deiseb yn gofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu'r ysgol:
Mrs Julie Rees-James, Tresi Aur, Efailwen, Clunderwen, SA66 7UZ

Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru ynghylch sut gall rhieni fynd ati i ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu:

http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/parents-meetings-statutory-guidance/?lang=cy

Llofnod _____ Dyddiad 24/06/2019